# ATODLEN

rheoliad 2 a 6

Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

**Ceisiadau yn ymwneud â hysbysiadau gwella**

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn hysbysiad gwella) heblaw cais y cyfeirir ato ym mharagraff 2.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**2.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 10 o Atodlen 1 i'r Ddeddf sydd ar y sail a ddynodir ym mharagraff 11(1) o'r Atodlen honno (sail apêl yn ymwneud â phersonau eraill), neu sy'n cynnwys y sail honno.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 12(2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai dyna'r ffordd orau o weithredu;

(ch) enw a chyfeiriad unrhyw berson a ddylai, fel un o berchnogion y fangre, ym marn y ceisydd weithredu fel sy'n ofynnol o dan yr hysbysiad gwella neu dalu'r cyfan neu ran o gostau'r gweithredu hwnnw ("y perchennog arall");

(d) prawf fod copi o'r cais wedi ei gyflwyno i'r perchennog arall;

(dd) datganiad yn cynnwys y manylion canlynol—

(i) natur buddiant y perchennog arall yn y fangre;

(ii) y rheswm pam y mae'r ceisydd yn tybio y dylai'r perchennog arall weithredu fel hynny neu dalu'r cyfan neu ran o gost y gweithredu hwnnw; a

(iii) pan mai sail y cais yw y dylai'r perchennog arall dalu'r cyfan neu ran o gost y gweithredu, amcangyfrif o'r gost honno o weithredu a'r gyfran o'r gost y mae'r ceisydd yn tybio y dylai'r perchennog arall ei thalu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**3.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 13(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu hysbysiad gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i amrywio neu wrthod amrywio neu ddirymu hysbysiad gwella (yn cynnwys unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**4.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan—

(a) paragraff 11(1) o Atodlen 3 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn galwad gan awdurdod tai lleol am ad-dalu costau a ddaeth i ran yr awdurdod tai lleol wrth weithredu pan fo hysbysiad gwella wedi'i gyflwyno);

(b) y paragraff hwnnw pan fydd wedi'i gymhwyso gydag addasiadau o dan adran 42 o'r Ddeddf (apêl yn erbyn galwad awdurdod tai lleol am ad-dalu costau a ddaeth i'w ran wrth gymryd camau adfer brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gwella neu (yn ôl y digwydd) yr hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) yr hysbysiad o ddatganiad o resymau;

(c) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 4 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (hysbysiad ynghylch bwriad awdurdod tai lleol i fynd i mewn i fangre i gymryd camau gweithredu penodol heb gytundeb);

(ch) copi o alwad yr awdurdod tai lleol am gostau;

(d) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir ym mharagraff 11(4) o'r Atodlen honno, manylion y cynnydd y dibynnir arno ei fod wedi'i wneud tuag at gydymffurfio â'r hysbysiad.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**Ceisiadau yn ymwneud â gorchmynion gwahardd**

**5.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(9) o'r Ddeddf (cais yn erbyn gwrthodiad gan awdurdod tai lleol i gymeradwyo defnydd penodol o dan adran 22(4)).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i wrthod caniatáu defnydd penodol o'r cyfan neu ran o'r fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 34(2) o'r Ddeddf (cais gan lesydd neu lesddeiliad am orchymyn yn terfynu neu'n amrywio les pan fo gorchymyn gwahardd wedi dod yn weithredol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r les berthnasol;

(ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

**7.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 7(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os mai un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd arall o weithredu a grybwyllir ym mharagraff 8(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno a rhesymau'r ceisydd dros farnu mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**8.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9(1) o Atodlen 2 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu i wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn gwahardd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol i amrywio neu i wrthod amrywio neu ddirymu gorchymyn gwahardd (yn cynnwys unrhyw ddogfennau a ddosbarthwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn cysylltiad â'i hysbysiad o benderfyniad).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**Ceisiadau'n ymwneud â gweithredu adfer brys**

**9.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(1) o'r Ddeddf (apêl gan berson y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan adran 41 o'r Ddeddf yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i gymryd camau gweithredu adfer brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**10.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 45(2) o'r Ddeddf (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gorchymyn gwahardd brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o orchymyn gwahardd brys a wnaed o dan adran 43 o'r Ddeddf (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo); a

(b) y datganiad o resymau.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**11.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan—

(a) paragraff 14 o Atodlen 3 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn i adennill treuliau a llog oddi wrth berson sy'n elwa o weithredu heb gytundeb); a

(b) y paragraff hwnnw fel y'i cymhwysir gydag addasiadau gan adran 42 o'r Ddeddf.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad o'r hysbysiad gwella neu, yn ôl y digwydd, yr hysbysiad o weithredu adfer brys (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r galwad am dreuliau a gyflwynwyd o dan baragraff 9 o'r Atodlen honno;

(ch) copi o unrhyw hysbysiad a gyflwynwyd o dan baragraff 12 o'r Atodlen honno;

(d) prawf fod yr hysbysiad wedi'i gyflwyno i'r person dan sylw fel y crybwyllir ym mharagraff 14(2) o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person y mae'r awdurdod tai lleol yn ceisio adennill treuliau a llog oddi wrtho.

**Ceisiadau'n ymwneud â gorchmynion dymchwel**

**12.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 269(1) o Ddeddf 1985 (apêl gan berson sydd wedi'i dramgwyddo gan orchymyn dymchwel).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os mai sail neu un o seiliau'r cais yw mai un o'r ffyrdd arall o weithredu a grybwyllir yn adran 269A(2) o Ddeddf 1985 yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd o weithredu honno a rhesymau'r ceisydd dros farnu mai dyna'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**13.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(1) neu (2)(a) o Ddeddf 1985 (cais mewn perthynas ag adennill treuliau awdurdod tai lleol wrth weithredu gorchymyn dymchwel o dan adran 271 o Ddeddf 1985 gan gynnwys penderfynu ynghylch cyfraniadau gan berchnogion ar y cyd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) datganiad yn nodi—

(i) y treuliau a ddaeth i ran yr awdurdod tai lleol o dan adran 271 o Ddeddf 1985 (gweithredu gorchymyn dymchwel);

(ii) y swm (os unrhyw beth) a godwyd drwy werthu deunyddiau; a

(iii) y swm y mae'r awdurdod tai lleol am ei adennill oddi wrth berson sy'n un o berchnogion y fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y fangre(**1**).

**14.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(2)(b) o Ddeddf 1985 (cais gan berchennog mangre am benderfyniad ynghylch y gyfran o dreuliau awdurdod tai lleol sydd i'w thalu gan berchennog arall).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(**1**) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) datganiad o beth yw—

(i) buddiant pob un o'r perchnogion yn y fangre; a

(ii) dyletswyddau ac atebolrwyddau pob un o'r perchnogion mewn perthynas â chynnal a chadw ac atgyweirio o dan unrhyw gyfamod neu gytundeb, boed hwnnw'n ddatganedig neu ymhlyg.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog y mae'r ceisydd yn ceisio cyfraniad ganddo tuag at dreuliau'r awdurdod tai lleol.

**15.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 317(1) o Ddeddf 1985 (cais gan lesydd neu lesddeiliad mangre y mae gorchymyn dymchwel wedi dod yn weithredol ar ei chyfer, am orchymyn yn amrywio neu'n terfynu'r les).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (yn cynnwys unrhyw atodlen iddo);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r les berthnasol; ac

(ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

### Cais yn ymwneud â gwaith ar fangre anaddas

**16.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 318(1) o Ddeddf 1985 (cais gan berson sydd â buddiant mewn mangre am i dribiwnlys awdurdodi cyflawni gwaith ar fangre anaddas neu ar gyfer gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) manylion y gwaith y mae'r ceisydd yn bwriadu ei wneud yn cynnwys—

(i) enwau a chyfeiriadau contractwyr arfaethedig pan fo hynny'n berthnasol;

(ii) amcangyfrif o gostau'r gwaith; a

(iii) amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith;

(b) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir yn adran 318(1)(b) o Ddeddf 1985, manylion—

(i) y cynllun gwella neu ailadeiladu y mae'r ceisydd yn dymuno ei gyflawni; a

(ii) cymeradwyaeth yr awdurdod tai lleol i'r cynllun.

(c) datganiad o sefyllfa ariannol y ceisydd yn cynnwys datgelu faint o arian sydd ar gael i dalu costau arfaethedig y gwaith;

(ch) pan fo'r cais yn cynnwys cais am orchymyn i derfynu les a ddelir oddi wrth y ceisydd neu les ddeilliannol, copi o'r les honno.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw—

(a) y person sydd â'r hawl i'r meddiant o'r fangre;

(b) perchennog y fangre(**2**).

(**2**) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.

**Ceisiadau'n ymwneud â thrwyddedu tai amlfeddiannaeth**

**17.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 62(7) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwrthodiad gan awdurdod tai lleol i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad i'r awdurdod tai lleol o dan adran 62(1) o'r Ddeddf; a

(b) copi o'r hysbysiad o benderfyniad yr awdurdod tai lleol o dan adran 62(6) o'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**18.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 73(5) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) Pan wneir y cais gan yr awdurdod tai lleol—

(i) copi o'r hysbysiad o'r bwriad i ddwyn achos o dan adran 73(7);

(ii) copi o unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r hysbysiad;

(iii) un ai—

(aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad fod trosedd o dan adran 72(1) wedi'i chyflawni; neu

(bb) pan fo'r awdurdod tai lleol yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 74 o'r Ddeddf, prawf fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 72(1) o'r Ddeddf; a

(iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai a dalwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn perthynas â meddiant y fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni; neu

(b) pan wneir y cais gan feddiannydd—

(i) tystiolaeth fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 72(1) o'r Ddeddf neu y mynnwyd iddo drwy orchymyn ad-dalu rhent i wneud taliad mewn perthynas â budd-dal tai; a

(ii) tystiolaeth fod y meddiannydd wedi gwneud taliadau cyfnodol mewn perthynas â meddiant o'r fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir fod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol (**3**).

**19.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 255(9) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i gyflwyno datganiad tai amlfeddiannaeth).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r datganiad tai amlfeddiannaeth.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**20.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 256(4) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i wrthod dirymu datganiad tai amlfeddiannaeth).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r datganiad tai amlfeddiannaeth; a

(b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i beidio â dirymu datganiad tai amlfeddiannaeth.

---

(**3**) *Gweler* adran 73(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffiniad o "the appropriate person".

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**21.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31(1) o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i ganiatáu, neu beidio â chaniatáu, trwydded o dan Ran 2 o'r Ddeddf, neu yn erbyn unrhyw un o amodau'r drwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu ag amodau trwydded—

(i) copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno; a

(ii) copi o'r drwydded; a

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**22.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan paragraff 32(1) o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl gan ddeiliad trwydded neu unrhyw berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol ynglŷn ag amrywio neu ddirymu trwydded o dan Ran 2 o'r Ddeddf).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 a 16 o Atodlen 5;

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i wrthod amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 19 a 21 o'r Atodlen honno;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;

(ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 26 a 28 o'r Atodlen honno; a

(d) ym mhob achos, copi o'r drwydded.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

### Ceisiadau'n ymwneud â thrwyddedu dethol parthed llety preswyl arall

**23.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 86(7) o'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwrthodiad gan yr awdurdod tai lleol i gyflwyno hysbysiad esemptio dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad i'r awdurdod tai lleol o dan adran 86(1) o'r Ddeddf; a

(b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad o dan adran 86(6) o'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**24.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 96(5) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol neu feddiannydd am orchymyn ad-dalu rhent).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan wneir y cais gan yr awdurdod tai lleol—

(i) copi o'r hysbysiad o'r achos arfaethedig o dan adran 96(7);

(ii) copi o unrhyw sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r hysbysiad;

(iii) un ai—

(aa) datganiad yn cynnwys y manylion y dibynnir arnynt ar gyfer gwneud yr honiad fod trosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf wedi'i chyflawni; neu

(bb) pan fo'r awdurdod tai lleol yn dibynnu ar ddarpariaethau adran 97 o'r Ddeddf, prawf fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf; a

(iv) dogfen sy'n dangos y budd-dal tai a dalwyd gan yr awdurdod tai lleol mewn perthynas â meddiant y fangre yn ystod y cyfnod pryd yr honnir i drosedd o'r fath gael ei chyflawni; neu

(b) pan wneir y cais gan feddiannydd—

(i) tystiolaeth fod y person priodol wedi'i gael yn euog o drosedd o dan adran 95(1) o'r Ddeddf neu wedi'i orchymyn drwy orchymyn ad-dalu rhent i wneud taliad mewn perthynas â budd-dal tai; a

(ii) tystiolaeth fod y meddiannydd wedi gwneud taliadau cyfnodol mewn perthynas â meddiant o'r fangre yn ystod cyfnod pryd yr honnir fod trosedd o'r fath yn cael ei chyflawni.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person priodol(**4**).

**25.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 31 o Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i ganiatáu, neu wrthod caniatáu, trwydded o dan Ran 3, neu yn ymwneud ag amodau trwydded).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â chaniatáu trwydded neu ag amodau trwydded—

(i) copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 1 a 7 o Atodlen 5, ac o unrhyw hysbysiad o dan baragraff 3 o'r Atodlen honno;

(ii) copi o'r drwydded; a

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ganiatáu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 5 ac 8 o'r Atodlen honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**26.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(1) o dan Atodlen 5 i'r Ddeddf (apêl gan ddeiliad trwydded neu berson perthnasol yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol ynglŷn ag amrywio neu ddirymu trwydded o dan Ran 3 o'r Ddeddf.

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o Atodlen 5;

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 19 a 21 o'r Atodlen honno;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 22 a 24 o'r Atodlen honno;

(ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu trwydded, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 26 a 28 o'r Atodlen honno; a

(d) ym mhob achos, copi o'r drwydded.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

---

(**4**) *Gweler* adran 73(1) o'r Ddeddf ar gyfer diffiniad o "the appropriate person".

**Ceisiadau'n ymwneud â gorchmynion rheoli dros dro a gorchmynion rheoli terfynol**

**27.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(4) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn drafft;

(b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys o—

(i) a yw'r amod iechyd a diogelwch yn adran 104 o'r Ddeddf wedi'i fodloni; a

(ii) y graddau y cydymffurfiwyd ag unrhyw god ymarfer a gymeradwywyd o dan adran 233 o'r Ddeddf; a

(iii) pan fo'r awdurdod tai lleol yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 9, datganiad sy'n rhoi digon o fanylion i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynghylch a yw'n ymddangos fod yr amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw'n bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol yn ôl y diffiniad o "relevant person" ym mharagraff 8(4) a pharagraff 35 o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

**28.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 102(7) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdod i wneud gorchymyn rheoli dros dro mewn perthynas â thŷ y mae adran 103 o'r Ddeddf yn gymwys iddo).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn drafft;

(b) datganiad o'r materion sy'n berthnasol i ystyriaeth y tribiwnlys ynghylch a yw'r amodau yn adran 103(3) a (4) o'r Ddeddf wedi'u bodloni; ac

(c) pan fo'r awdurdod tai lleol yn gofyn am ymdrin â'r cais fel mater brys o dan reoliad 9, datganiad sy'n rhoi digon o fanylion i alluogi'r tribiwnlys i ffurfio barn ynghylch a yw'r amgylchiadau eithriadol a grybwyllir ym mharagraff (3) o'r rheoliad hwnnw'n bodoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw person perthnasol fel y'i diffinnir ym mharagraff 8(4) a pharagraff 35 o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

**29.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 105(10) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am i orchymyn rheoli dros dro barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymdrin ag apêl);

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli dros dro; a

(b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**30.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 110(7) o'r Ddeddf (cais gan landlord perthnasol am orchymyn mewn perthynas â threfniadau ariannol tra bo gorchymyn rheoli dros dro mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli dros dro;

(b) copi o'r cyfrifon a gadwyd gan yr awdurdod tai lleol yn unol ag adran 110(6).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**31.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 114(7) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes barhau mewn grym tra disgwylir ymdrin ag apêl yn erbyn gorchymyn rheoli terfynol newydd).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n bodoli eisoes;

(b) copi o'r gorchymyn rheoli terfynol newydd a wnaed i ddisodli'r gorchymyn hwnnw; ac

(c) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud y gorchymyn rheoli terfynol newydd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**32.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 120(1) o'r Ddeddf (cais gan berson yr effeithir arnynt am orchymyn bod yr awdurdod tai lleol yn rheoli yn unol â'r cynllun rheoli yn y gorchymyn rheoli terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli terfynol sy'n cynnwys y cynllun rheoli y mae'r cais yn cyfeirio ato.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**33.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 126(4) o'r Ddeddf (cais am addasu hawliau ac atebolrwyddau mewn perthynas â dodrefn a freinir yn yr awdurdod tai lleol tra bo gorchymyn rheoli mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli perthnasol; a

(b) datganiad yn rhoi manylion hawliau ac atebolrwyddau (yn cynnwys perchnogaeth) pob un o'r personau sydd â buddiant yn y dodrefn.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r person arall sydd â buddiant yn y dodrefn.

**34.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 130(9) o'r Ddeddf (cais i benderfynu pwy yw "y landlord perthnasol" ("*the relevant landlord*") at ddibenion adran 130 pan ddaw'r gorchymyn rheoli i ben).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r landlord perthnasol arall(**5**).

**35.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan paragraff 24 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli, neu yn erbyn amodau'r gorchymyn neu'r cynllun rheoli cysylltiedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli (yn cynnwys y cynllun rheoli);

(b) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 6 i'r Ddeddf;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud ag amodau'r gorchymyn rheoli, datganiad sy'n pennu pob amod a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; ac

(ch) pan wneir y cais ar y sail a ddynodir ym mharagraff 24(3) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, datganiad o'r materion yn adran 110(5) (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben ac ati) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

(**5**) *Gweler* adran 130(11) ar gyfer diffiniad o "relevant landlord".

**36.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 28 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad neu wrthodiad awdurdod tai lleol i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli neu wrthodiad i newid neu ddirymu'r fath orchymyn).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6;

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 17 ac 19 o'r Atodlen honno; ac

(ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu gorchymyn rheoli, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; a

(d) ym mhob achos—

(i) copi o'r gorchymyn rheoli; a

(ii) copi o'r hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod tai lleol o dan baragraff 7(2)(b) o Atodlen 6 i'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**37.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 32(2) o Atodlen 6 i'r Ddeddf (apêl gan drydydd parti yn erbyn penderfyniad gan awdurdod tai lleol o dan adran 128 o'r Ddeddf ynghylch yr iawndal sy'n daladwy i drydydd partïon).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli (yn cynnwys y cynllun rheoli);

(b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag adran 128(2) o'r Ddeddf; ac

(c) datganiad yn rhoi manylion llawn—

(i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli; a

(ii) swm yr iawndal a hawlir oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**Ceisiadau mewn perthynas â gorchmynion rheoli anheddau gwag**

**38.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 133(1) o'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am awdurdodiad i wneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r drafft o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro;

(b) datganiad o dystiolaeth—

(i) ynghylch y materion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys gael ei fodloni yn eu cylch o dan adran 134(2) o'r Ddeddf;

(ii) fod yr awdurdod tai lleol wedi ystyried yr hawliau a'r buddiannau a ddynodir yn adran 133(4) o'r Ddeddf; ac

(c) pan fo'r awdurdod tai lleol, yn unol ag adran 133(3) o'r Ddeddf, wedi hysbysu'r perchennog perthnasol ei fod yn ystyried gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro, copi o'r hysbysiad hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog perthnasol(**6**).

**39.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 138(1) o'r Ddeddf (cais, tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro mewn grym, am orchymyn fod awdurdod tai lleol yn talu iawndal i drydydd parti am darfu ar ei hawliau).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro (yn cynnwys y cynllun rheoli);

(b) copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag adran 138(4) o'r Ddeddf; ac

(c) datganiad yn rhoi manylion llawn—

(i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a

(ii) swm yr iawndal a hawlir oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**40.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 1(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymdrin ag apêl o dan baragraff 26 o'r Atodlen honno).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a

(b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**41.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 2(3)(d) neu baragraff 10(3)(d) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn o dan baragraff 22 o'r Atodlen honno'n terfynu les neu drwydded tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol (yn cynnwys unrhyw gynllun rheoli);

(b) copi o'r les neu'r drwydded berthnasol, neu os nad yw honno ar gael, tystiolaeth o fodolaeth y les neu'r drwydded; ac

(c) datganiad yn cynnwys y manylion canlynol—

(i) enw a chyfeiriad, pan fyddant yn wybyddus, unrhyw lesydd, lesddeiliad, is-lesydd, is-lesddeiliad, neu drwyddedai;

(ii) tystiolaeth o faterion y mae'n rhaid i'r tribiwnlys gael ei fodloni yn eu cylch o dan baragraff 22(1)(b) o Atodlen 7 i'r Ddeddf; a

(iii) swm yr iawndal (os unrhyw beth) y mae'r awdurdod tai lleol yn fodlon ei dalu o ganlyniad i derfynu'r les neu'r drwydded, yn cynnwys manylion ynghylch sut y cyfrifwyd yr iawndal hwnnw.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw'r partïon i'r les neu'r drwydded.

(**6**) *Gweler* adran 132(4)(c) ar gyfer y diffiniad o "relevant proprietor".

**42.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 5(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan berchennog perthnasol am orchymyn mewn cysylltiad â threfniadau ariannol tra bo gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro mewn grym).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a

(b) copi o'r cyfrifon a gedwir gan yr awdurdod tai lleol yn unol â pharagraff 5(6) o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**43.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 9(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan awdurdod tai lleol am orchymyn y dylai gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol barhau mewn grym hyd y byddir wedi ymdrin ag apêl o dan baragraff 26).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro; a

(b) copi o'r hysbysiad o apêl o dan baragraff 26 o Atodlen 7 i'r Ddeddf yn erbyn gwneud gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ceisydd sydd wedi gwneud yr apêl perthnasol.

**44.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 14(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (cais gan berson yr effeithir arnynt am orchymyn fod awdurdod tai lleol i reoli annedd yn unol â chynllun rheoli mewn gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**45.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 26(1) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i wneud gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol neu yn erbyn amodau'r gorchymyn neu'r cynllun rheoli cysylltiedig).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli);

(b) pan fo'r cais yn ymwneud ag amodau'r gorchymyn rheoli, datganiad yn pennu pob amod a wrthwynebir, ynghyd â'r rhesymau dros y gwrthwynebiad; ac

(c) pan wneir y cais ar y sail a bennir ym mharagraff 26(1)(c) o Atodlen 6 i'r Ddeddf, datganiad o'r materion ym mharagraff 5(5)(a) a (b) (sy'n ymwneud â thalu rhenti dros ben etc) sy'n berthnasol i'r sail honno.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**46.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 30 o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol i amrywio neu ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol neu wrthodiad i amrywio neu ddirymu gorchymyn o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i amrywio gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 6 i'r Ddeddf (fel y'u cymhwysir gan baragraff 17 o Atodlen 7);

(b) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i amrywio gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 14 ac 16 o'r Atodlen honno;

(c) pan fo'r cais yn ymwneud â phenderfyniad i ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 17 ac 19 o'r Atodlen honno; ac

(ch) pan fo'r cais yn ymwneud â gwrthodiad i ddirymu gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol, copi o hysbysiadau'r awdurdod tai lleol o dan baragraffau 20 a 22 o'r Atodlen honno; a

(d) ym mhob achos copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag dros dro neu derfynol (yn ôl y digwydd).

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**47.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan baragraff 34(2) o Atodlen 7 i'r Ddeddf (apêl yn erbyn penderfyniad awdurdod tai lleol o dan adran 136(4) neu 138(3) o'r Ddeddf mewn perthynas â'r iawndal sy'n daladwy i drydydd partïon am y tarfu a fu ar eu hawliau o ganlyniad i orchymyn rheoli anheddau gwag terfynol).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol (yn cynnwys y cynllun rheoli);

(b) pan fo'r trydydd parti wedi gofyn am iawndal o dan adran 138 o'r Ddeddf copi o hysbysiad yr awdurdod tai lleol o'i benderfyniad i'r trydydd parti yn unol ag isadran (4) o'r adran honno; ac

(c) datganiad yn rhoi manylion llawn—

(i) yr hawliau yr honnir y bu tarfu arnynt o ganlyniad i'r gorchymyn rheoli tŷ gwag terfynol; a

(ii) swm yr iawndal a hawlir oherwydd y tarfu hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**Ceisiadau mewn perthynas â hysbysiadau gorlenwi**

**48.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 143(1) o'r Ddeddf (apêl gan berson sydd wedi'i dramgwyddo gan hysbysiad gorlenwi).

(2) Y ddogfen benodedig yw copi o'r hysbysiad gorlenwi, neu ddatganiad gan y ceisydd yn esbonio'r amgylchiadau sydd wedi peri na all y ceisydd ddarparu copi o'r hysbysiad hwnnw.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.

**49.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 144(2) (apêl gan berson perthnasol yn erbyn gwrthodiad awdurdod tai lleol i ddirymu neu amrywio hysbysiad gorlenwi, neu yn erbyn methiant yr awdurdod tai lleol i ymateb mewn pryd i gais am ddirymu neu amrywio hysbysiad o'r fath).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r hysbysiad gorlenwi;

(b) pan fu i'r awdurdod tai lleol wrthod amrywio hysbysiad gorlenwi, copi o benderfyniad yr awdurdod tai lleol.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r awdurdod tai lleol.